# Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu:

## Cyflwyniad i'r Grŵp Cwricwlwm & Asesu: Rhagfyr 2017

(Adolygwyd  yn dilyn adborth CAG yn ystod gweithdy MDaPh 13 Rhagfyr 2017)

**Cynnwys**

Cyflwyniad ....................................................................................................1

1. Datganiad sy'n diffinio 'beth sy'n bwysig' yng nghyd-destun y Maes Dysgu a Phrofiad, gan amlinellu sut y bydd y Maes Dysgu a Phrofiad yn cefnogi'r broses o gyflawni'r pedwar diben ..............................................2

2. Teitlau cychwynnol ar gyfer meysydd 'yr hyn sy'n bwysig’ ..............3

3. Cysyniad allweddol ar gyfer 'beth sy'n bwysig' a ddatblygwyd ymhellach ..........................................................................................7

## Cyflwyniad

Ym mis Gorffennaf 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddiweddariad a oedd yn sôn am ffordd o fynd ati i ddatblygu'r cwricwlwm ac yn rhannu syniadau cynnar am y Meysydd Dysgu a Phrofiad a nodir yn *Dyfodol Llwyddiannus.* Mae'r newyddion diweddaraf hyn ar gyfer mis Ionawr yn disgrifio cam nesaf y broses ddatblygu - nodi 'yr hyn sy'n bwysig' o fewn y chwe Maes Dysgu a Phrofiad.

Mae'r ffordd hon o weithio, sef 'yr hyn sy'n bwysig', yn nodi'r prif elfennau y dylai pob dysgwr eu profi yn ystod eu taith drwy fyd addysg. Mae pedwar diben y cwricwlwm newydd yn greiddiol i'r holl drafodaethau sy'n ymwneud â'r gwaith hwn.

Bydd pob Maes Dysgu a Phrofiad yn cynnwys cyfres o ddatganiadau 'yr hyn sy'n bwysig'. Wrth ddatblygu'r datganiadau hyn, mae'r Arloeswyr wedi gwneud ymchwil manwl a thrylwyr ac wedi gwahodd arbenigwyr i wneud cyflwyniadau ac ymuno yn y trafodaethau o fewn eu grwpiau.

Mae'r ffordd hon o weithio wedi ei hardystio gan yr Athro Donaldson ac academyddion amlwg eraill. Mae cyfuniad o bapurau academaidd a gomisiynwyd ac ymchwil academaidd eilaidd hefyd wedi cadarnhau'r gred ymysg Arloeswyr a grwpiau cynghori mai dyma yw'r ffordd iawn o fynd ati i ddatblygu'r cwricwlwm yng Nghymru.

Mae'r papurau yn cynnwys fersiynau drafft cychwynnol o ddatganiadau 'yr hyn sy'n bwysig' gyda'r rhesymeg y tu ôl iddynt, sy'n rhoi sail i rannu a thrafod. Maent yn adlewyrchu meddylfryd y Grwpiau Meysydd Dysgu a Phrofiad ym mis Rhagfyr 2017. Fel rhan o broses iteraidd, bydd y Grwpiau Meysydd Dysgu a Phrofiad yn parhau i fireinio datganiadau 'yr hyn sy'n bwysig', ochr yn ochr â'r gwaith o ddatblygu'r fframweithiau cynnydd ategol, a manylion y Maes Dysgu a Phrofiad.

Wrth i'r gwaith fynd rhagddo bydd Grŵp Cydlynu, sydd newydd gael ei sefydlu o dan gadeiryddiaeth yr Athro Richard Daugherty, yn sicrhau bod cydlyniad a chysondeb ar draws y cwricwlwm. Bydd y grŵp yn datblygu'n grŵp rheoli a fydd yn herio mewn modd beirniadol ar faterion fel maint y cwricwlwm a sut y mae'n cael ei gyflawni, wrth i ragor o wybodaeth ddod ar gael.

### Amlinelliad o'r camau a gymerwyd yn ystod tymor yr hydref 2017

Cyfarfu arloeswyr deirgwaith yn ystod tymor yr hydref ar gyfer gweithdai deuddydd (Llandudno, Caerdydd ac Aberystwyth). Ystyriodd y grŵp bum datganiad "yr hyn sy'n bwysig" cychwynnol. Roedd y cwmpas cyffredinol yn gyson o hyd, a chafodd un datganiad ei ychwanegu a chafodd un ei ymgorffori ar draws y lleill. Ystyriwyd bod "Mae gan hunaniaeth gysylltiad annatod ag ieithoedd, diwylliannau a chenedligrwydd" yn rhan hanfodol o bob datganiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, a chaiff ei ystyried ymhellach wrth i bob un gael ei ddatblygu ymhellach.

Mae'r datganiad ychwanegol a gynigiwyd gan y grŵp yn ymwneud â 'chywirdeb'. Roedd safbwyntiau gwahanol yn dibynnu ar iaith ac oedran/gallu'r disgyblion a addysgir. Cytunwyd ar bwysigrwydd cywirdeb ond gan gydnabod y gall gorbwysleisio effeithio ar greadigrwydd a hyder. Bydd y grŵp yn ymgysylltu ag arbenigwyr Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu er mwyn trafod ymhellach p'un a ddylai cywirdeb fod yn gysyniad ar wahân neu ffurfio rhan o ddatganiad(au) eraill.

Mae'r grŵp am bwysleisio, er mai Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yw'r 'cartref' naturiol ar gyfer llythrennedd o fewn y cwricwlwm, bod hefyd angen i grwpiau eraill ystyried llythrennedd yn benodol ar gyfer eu Maes Dysgu a Phrofiad, er enghraifft cofnod arbrofion mewn gwyddoniaeth, defnyddio iaith lafar i gydweithio i ddatrys problem fathemategol, terminoleg a geirfa arbenigol, ieithoedd codio ac ati.

Wrth ddatblygu'r datganiadau, mae'r grŵp wedi cael mewnbwn arbenigol gan amrywiaeth o unigolion a sefydliadau yn cynnwys:

- Yr Athro Enlli Thomas, Prifysgol Bangor – arbenigwr ar gaffael iaith a dwyieithrwydd;
- Yr Athro Mererid Hopwood, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant;
- Yr Athro Neil Mercer, Oracy Cambridge;
- Dr. Catherine Rozier, Prifysgol Abertawe (y Clasuron)
- Laurie Smith, King's College, Llundain – prosiect 'Let's Think in English' (dysgu carlam);
- Aelodau o Grŵp Llywio Dyfodol Byd-eang (ieithoedd rhyngwladol)

Mae grŵp Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu hefyd wedi ymgysylltu â Carys Lake o ganolfan trochi iaith Gymraeg Gwynedd; Helen Prosser, Cyfarwyddwr Strategol Canolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol; ac aelodau o Wasanaeth SIY Conwy a Sir Ddinbych yn y gorffennol. Treuliodd y grŵp hefyd ddiwrnod ym mis Mehefin yn ysgol uwchradd Fitzalan a chafodd fewnbwn gan yr athrawon SIY ac ieithoedd yno. Caiff mwy na 40 o ieithoedd eu siarad gan gymuned ysgol Fitzalan.

## 1. Datganiad sy'n diffinio 'yr hyn sy'n bwysig' yng nghyd-destun y Maes Dysgu a Phrofiad, gan amlinellu sut y bydd y Maes Dysgu a Phrofiad yn cefnogi'r broses o gyflawni'r pedwar diben

**Bydd Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yn datblygu dinasyddion egwyddorol, gwybodus** yng Nghymru a'r byd. Mae dysgu am ieithoedd a dulliau eraill o gyfathrebu yn helpu disgyblion i gymryd rhan yn effeithiol mewn addysg. Mae'n eu haddysgu i werthfawrogi a pharchu anghenion a hawliau eraill ac yn eu helpu i greu cymdeithasau amrywiol, cydlynol a chynhwysol, yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang. Drwy brofi, deall a defnyddio ieithoedd yng Nghymru, bydd disgyblion yn deall eu hunaniaeth, eu diwylliant, eu cymuned a'u cymdeithas yn

well. Trwy iaith a llenyddiaeth, bydd disgyblion yn datblygu ymdeimlad o hunaniaeth. Byddant yn gallu mynegi, datgan a chynrychioli eu hemosiynau ac yn gallu deall emosiynau pobl eraill. Bydd eu hymdeimlad o berthyn yn cael ei gryfhau; a thrwy hyn, ynghyd â datblygu eu sgiliau cyfathrebu, byddant yn magu hyder fel unigolion gyda llais i'w glywed.

**Bydd Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yn datblygu cyfranwyr mentrus a chreadigol** i gymdeithas sydd ag ymwybyddiaeth o'r safbwyntiau gwahanol a ddaw drwy ddysgu ieithoedd a dulliau cyfathrebu. Caiff disgyblion eu galluogi i ddefnyddio eu sgiliau amlieithog er mwyn datrys problemau a meddwl yn feirniadol gyda'i gilydd ac yn annibynnol. Mae datblygu hyder i ddefnyddio ieithoedd yn galluogi disgyblion i addasu i rolau gwahanol, i feddwl yn greadigol ac i fod yn barod i gymryd risgiau wrth iddynt arbrofi ag ieithoedd newydd. Byddant yn greadigol wrth fynegi a datblygu syniadau a barn.

**Bydd Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yn datblygu unigolion iach a hyderus** a all mynegi eu meddyliau a'u teimladau a dehongli meddyliau a theimladau pobl arall, gan ddangos parch a datblygu perthnasoedd cryfion a chadarnhaol er mwyn gweithio ag eraill i oresgyn heriau. Byddant yn defnyddio ieithoedd a llenyddiaeth i gael gafael ar wybodaeth er mwyn eu cefnogi nhw ac eraill a'u cadw'n ddiogel ac yn iach yn y byd go iawn a'r byd rhithwir. Byddant yn deall sut i feddwl ac yn ymgymryd yn feirniadol ag iaith a llenyddiaeth sy'n cael ei gyfathrebu trwy amrediad o gyfryngau.

**Bydd Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yn datblygu dysgwyr uchelgeisiol a galluog** sy'n gallu dod yn gyfathrebwyr galluog. Byddant yn defnyddio sgiliau Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yn effeithiol mewn cyd-destunau perthnasol trwy'r Gymraeg, Saesneg, eu hieithoedd eraill, cyfryngau digidol (a thrwy Gyfathrebu Estynedig â Chymorth lle y bo'n berthnasol). Bydd hyn yn eu galluogi i fod yn ddysgwyr llwyddiannus, nawr ac yn eu bywydau yn y dyfodol. Drwy brofiadau a heriau ystyrlon mewn bywyd go iawn, bydd disgyblion yn datblygu'r sgiliau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i ddatblygu ymagwedd uchelgeisiol at ddysgu iaith, llafaredd, llythrennedd, cyfathrebu a llenyddiaeth.

## 2. Teitlau cychwynnol ar gyfer meysydd 'yr hyn sy'n bwysig'

Mae'r grŵp wedi datblygu pum cysyniad allweddol "Yr hyn sy'n Bwysig". Fel y nodir yn y cyflwyniad, nodwyd cysyniad ychwanegol ynghylch y cysylltiad rhwng hunaniaeth, ieithoedd a diwylliannau. Ystyrir bod hyn yn rhan annatod o'r holl ddatganiadau Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu a restrir isod.

1) **I ddefnyddio ieithoedd yn effeithiol rhaid deall eu bod nhw wedi'u llunio, eu bod nhw'n gysylltiedig ac yn esblygu.**

Mae hyn yn bwysig am fod deall nodweddion cyffredin a chysylltiadau rhwng ieithoedd yn rhoi sail i ddysgu ieithoedd ymhellach. Mae deall sut i ddefnyddio a chysylltu sgiliau siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu yn ein galluogi i wneud synnwyr o'r byd. Trwy weithio ag eraill, rydym yn gallu datblygu ffyrdd newydd o gyfathrebu i weddu i bwrpasau a sefyllfaoedd arbennig. Mae deall y caiff iaith ei llunio, gan ddilyn rheolau gramadeg, cystrawen a sillafu yn ein galluogi i gyfathrebu a chyfleu ystyr yn gynyddol gywir. Mae profi a deall hanes llenyddiaeth a chymryd rhan weithredol yn y broses o esblygu ieithoedd yn ein galluogi i ymateb yn effeithiol i'r newidiadau mewn cymdeithas, diwylliant, yr amgylchedd a thechnoleg.

Caiff y cysyniad hwn ei addysgu ym mhob rhan o'r continwwm dysgu, gyda chymhlethdod cynyddol wrth i ddisgyblion ddatblygu ac aeddfedu.

2) **Mae defnyddio ieithoedd yn effeithiol yn ein helpu i berthyn, cyfrannu, creu a chyfathrebu.**

Mae hyn yn bwysig am fod ieithoedd yn darparu cyfle i fynegi teimladau a syniadau, barn a safbwynt mewn gweithgareddau bob dydd yn yr ysgol, gartref, yn y gwaith ac yn y gymuned.  Mae'r broses o ddysgu ieithoedd yn cynnig mwynhad yn ogystal â chyfleoedd i ddatrys problemau, meddwl ac ymateb yn feirniadol,  arbrofi a bod yn greadigol.  Mae llythrennedd yn disgrifio set o sgiliau, yn cynnwys siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu, sy'n ein galluogi i wireddu'r dibenion hyn yn ddiogel ac yn effeithiol . Mae a wnelo llythrennedd â mwy na dim ond y dulliau o allu dadgodio'r geiriau ar dudalen neu ysgrifennu brawddeg yn gywir yn ramadegol, er bod y rhain yn sgiliau hanfodol eu hunain. Trwy ieithoedd byddant yn cyfathrebu er mwyn ffurfio perthynas ystyrlon a rhannu amrediad eang o brofiadau i ddeall y byd o'n cwmpas. Mae ieithoedd yn ein galluogi i gymryd rhan weithredol mewn cymdeithas, i gydweithio a datblygu'n unigolion gwerthfawr, hyderus, uchelgeisiol a llwyddiannus mewn byd amlieithog.

3) **Fel cyfathrebwyr medrus, rydym yn defnyddio ac yn addasu iaith ar gyfer cynulleidfaoedd, dibenion a chyd-destunau gwahanol.**

Mae hyn yn bwysig gan mai iaith mewn cyd-destun sy'n creu ystyr. Mae gwrando ar/ darllen/gwylio  iaith, meddwl amdani  ac ymateb iddi yn sail i ddatblygu ein cyfathrebu. Mae'r gallu i addasu ein hiaith ar gyfer dibenion, cynulleidfaoedd a chyd-destunau gwahanol yn datblygu drwy ein hoes. Rydym yn dysgu sut i fynegi ein meddyliau ein hunain i hysbysu, arwain, perswadio ac annog eraill.  Mae ymgysylltu ag ieithoedd mewn amrediad o ddulliau, ffurfiau ac arddulliau yn darparu sail ar gyfer addasu ein hiaith ein hunain i gyd-destunau gwahanol a dewis cywair addas. Rydym yn datblygu ein medrau meddwl o bob math trwy

gwneud cysylltiadau, cwestiynu, mynegi barn a thrafod iaith ar draws amrediad o gyd-destunau.

Bydd disgyblion yn dechrau addasu eu hiaith o oedran cynnar er mwyn cyfathrebu gyda ffrindiau, teulu ac athrawon gan ymateb i sefyllfaoedd fwyfwy anghyfarwydd a chymhleth wrth iddynt ddatblygu.

Ceir cysylltiadau â'r Celfyddydau Mynegiannol, er enghraifft yn y defnydd creadigol o iaith mewn barddoniaeth, drama a ffilm.

4) **Mae cyfathrebu'n gywir gydag eraill yn cyfrannu at y ffordd rydym yn deall, dangos empathi, cysylltu a rhannu profiadau a gweithio ag eraill.**

Mae hyn yn bwysig am ein bod ni angen gwrando, trefnu ein meddyliau, siarad, ysgrifennu a chyfathrebu'n glir ac yn hyderus er mwyn cyfrannu'n weithredol yn ein byd, a deall ein hunain ac eraill. Mae cywirdeb yn lleihau posibilrwydd camddehongli yr hyn rydym yn ceisio cyfleu. Mae anghywirdeb sillafu, rhedeg arddodiaid a berfau, treiglo ayb yn gallu amharu'n sylweddol ar ystyr ond mae'n rhaid i ni hefyd fod yn barod i gymryd risg gydag iaith er mwyn bod yn greadigol. Mae eglurdeb a chywirdeb mewn iaith arwyddo yn galluogi plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol i gyfathrebu â chynulleidfa ehangach. Mae hyn hefyd yn berthnasol i gyfathrebu di-iaith megis mynegiant wynebol ac ystum lle mae angen cywirdeb i fynegi ystyr.

Mae cywirdeb wrth gyfathrebu yn bwysig i bob disgybl yn y chwe Maes Dysgu a Phrofiad ac mewn bywyd yn fwy cyffredinol.

5) **Mae profi a mwynhau llenyddiaeth yn hyrwyddo meddwl beirniadol a chreadigol, yn ysgogi ein dychymyg a datblygu ein dealltwriaeth o'r byd.**

Mae hyn yn bwysig am fod llenyddiaeth yn gallu ehangu'r meddwl a chynnig breuddwydion a dyheadau. Mae llenyddiaeth, yn cynnwys digidol, ffilm a llunyddiaeth*, testunau llafar ac ysgrifenedig, yn gwella ein dealltwriaeth o brofiadau, meddyliau, credoau, teimladau a diwylliannau pobl. Mae llenyddiaeth yn gynnyrch y cyd-destun y mae wedi'i chreu ynddo. Drwy ymchwilio i weithiau llenyddol ac anllenyddol, eu hastudio a'u mwynhau, rydym yn datblygu gwerthfawrogiad o grefft ac arddull awdur mewn addysg ac yn y byd ehangach. Mae llenyddiaeth yn hwyluso addysgu empathi trwy gysyniadau megis safbwynt, cymeriad, rhyddhad emosiynol ac yn sbardun ar gyfer trafod ac ystyried deunyddiau a phynciau anodd. Mae llenyddiaeth yn sbardun i ddychymyg unigolyn ac yn gallu galluogi a gwella creadigrwydd. Mae'n hyrwyddo meddwl yn feirniadol ac yn cryfhau ein medrau fel ysgrifenwyr am ein bod ni'n cael ein hannog i ddod i gasgliad a diddwytho ystyr a dod yn ymwybodol o dechnegau llenyddol. Fel 'cynulleidfa' ac fel 'awdur', rydym yn rhoi ac yn derbyn ymatebion

dilys sy’n gwerthfawrogi lleisiau ac yn cyfleu hunaniaeth, ac wrth wneud yn cynnig cysur ac yn hybu uchelgais.

Mae cysylltiadau gyda Celfyddydau Mynegiannol pan fydd llenyddiaeth (e.e. barddoniaeth a drama) yn cael ei pherfformio a thrwy astudio llenyddiaeth. Bydd llenyddiaeth hefyd yn bwysig er mwyn cynnig safbwyntiau amgen ac er mwyn datblygu empathi ym meysydd Iechyd a Lles a Dyniaethau.

**Llunyddiaeth* yw'r term a ddefnyddir gan CBAC, y sefydliad dyfarnu yng Nghymru, ar gyfer 'visual literature' (astudio ffilmiau ac ati). Yn Gymraeg, mae'r broses o astudio llunyddiaeth yn ategu'r broses o astudio llenyddiaeth.

## 3. Cysyniad allweddol ar gyfer 'yr sy'n bwysig' a ddatblygwyd ymhellach

Rhoddir y canlynol fel enghraifft gychwynnol o ddatblygu un o gysyniadau allweddol y grŵp ymhellach, gyda'r ddealltwriaeth y bydd gwaith CAMAU yn cynnwys gwaith i fapio cynnydd yn fanylach fel rhan o'r cam gwaith nesaf yn ystod tymor y gwanwyn.

**Fel cyfathrebwyr medrus, rydym yn defnyddio ac yn addasu iaith ar gyfer cynulleidfaoedd, dibenion a chyd-destunau gwahanol.**

Bydd cynnydd yn cwmpasu sgiliau derbyn (gwrando, gwylio a darllen), a sgiliau mynegi / cynhyrchu (siarad, cyflwyno ac ysgrifennu).

**Llafaredd: Gwrando-Meddwl-Siarad**

Mae gwrando ar iaith ac ymateb iddi yn sail i'r broses o ddatblygu sgiliau cyfathrebu. Yn y blynyddoedd cynnar, mae disgyblion yn gwrando ar iaith wedi'i modelu mewn amgylchedd strwythuredig. Rydym yn datblygu sgiliau gwrando gweithredol, prosesu’r hyn rydym yn clywed,  ac yn dysgu sut i ymateb a chyfrannu. Drwy wylio a gwrando ar ffynonellau gwahanol, e.e. ymwelwyr i’r ysgol, profiad uniongyrchol, straeon, drama, barddoniaeth, ffilmiau, gwybodaeth  a'r cyfryngau cymdeithasol, rydym yn dysgu sut y gellir addasu iaith ar gyfer dibenion a chynulleidfaoedd gwahanol.

Rydym yn dysgu sut mae diwylliannau a chymunedau gwahanol yn defnyddio ac yn addasu ieithoedd. Byddant yn dysgu sut i ymgysylltu’n bersonol ac yn feirniadol â syniadau a theimladau pobl arall, gan adnabod tuedd neu ragfarn amlwg a chyfeirio at fanylion.

Rydym yn dysgu sut i ddefnyddio iaith at ddibenion gwahanol ac i addasu patrymau i gyd-destunau gwahanol yn cynnwys profiadau bywyd go iawn,  drama a barddoniaeth. Drwy efelychu iaith sy’n cael ei modelu, rydym yn datblygu ymwybyddiaeth o'r angen i addasu iaith er mwyn cyfathrebu’n bersonol ac yn gymdeithasol, yn feirniadol a phroffesiynol gyda ffrindiau a theulu, ein cymuned ac yn y gweithle.

Rydym yn dysgu i ddefnyddio iaith lafar mewn ffyrdd addas trwy ymddiddan anffurfiol gyda ffrindiau i sefyllfaoedd mwy ffurfiol e.e. cyflwyno/ cymryd rhan mewn gwasanaeth, siarad ag ymwelwyr, gofyn cwestiynau i siaradwyr. Byddant yn datblygu'r defnydd o ymddiddan estynedig  pwrpasol, gan siarad yn glir, amrywio mynegiant, goslef a llais er mwyn ennyn diddordeb gwrandawyr a dechrau defnyddio geirfa gynyddol gymhleth, sy'n bwnc benodol.

Wrth i ni ddod yn fwy hyfedr, rydym yn dewis a chynnal cywair ac arddull priodol yn barhaus. Rydym yn dysgu sut i ddefnyddio iaith safonol ac ansafonol yn briodol mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol. Wrth i ni ddatblygu, byddwn yn fwy hyderus wrth roi trefn ar ein hiaith lafar a'i hymestyn gan ddefnyddio ystod ehangach o strwythurau cystrawen a geirfa gywir ac effeithiol (yn cynnwys terminoleg), gan wneud cyfraniadau arwyddocaol, ystyrlon er mwyn ennyn diddordeb gwrandawyr.

**Darllen/Gwylio ac Ymateb**

Rydym yn datblygu dealltwriaeth, ymatebion beirniadol a chreadigol i'r hyn rydym yn darllen a gwylio trwy wrando/gwylio ac yna drwy ddarllen amrediad o destunau o genres gwahanol gan gynnwys straeon, chwedlau, newyddion, dramâu, ffuglen, barddoniaeth, newyddion, a thestunau gwybodaeth, esboniad, perswâd ac amleiriog mewn cyfryngau gwahanol. Bydd amlygiad i destunau o ansawdd uchel gan gynnwys iaith ffurfiol ac anffurfiol; testunau mewn print a thestunau deinamig yn cynnwys cyfryngau newyddion a chyfryngau cymdeithasol. Trwy ddarllen/gweld testunau mewn cyfryngau gwahanol, rydym yn deall yr angen i addasu iaith ar gyfer diwylliannau a chymunedau gwahanol.

Rydym yn dysgu sut i adnabod sut mae testunau'n wahanol pan gânt eu haddasu ar gyfer cyfryngau a chynulleidfaoedd gwahanol ac yn dechrau ystyried yr effaith a fwriedir. Daw darllen/gwylio yn gynyddol ddadansoddol drwy wneud cysylltiadau, cwestiynu, mynegi safbwyntiau a thrafod priodoldeb iaith.

Rydym yn datblygu'r sgiliau i wahaniaethu rhwng ffeithiau, damcaniaethau a safbwyntiau ac yn defnyddio tystiolaeth er mwyn dangos y gwahaniaethau ac adnabod ddehongliadau gwahanol o ffeithiau a gwybodaeth a gwerthuso eu rhinweddau cymharol. Rydym yn dod yn fwy dewisol wrth ddadansoddi yn feirniadol a gwerthuso gwybodaeth, syniadau, safbwyntiau, diben, ystyr ymhlyg a/neu duedd mewn amrywiaeth eang o destunau.

Mae darllenwyr hyfedr yn ymwybodol o ddylanwad ffactorau cymdeithasol a diwylliannol ar iaith a chynnwys testunau. Deallwn bod rhai testunau yn cynnwys elfennau o ragfarn, byddwn yn dysgu sut i'w hadnabod, gan feirniadu testunau a/neu ddarluniau sy'n dangos tuedd.

**Ysgrifennu /Creu/ Cyfathrebu**

Dysgwn am fathau gwahanol o ysgrifennu sy'n briodol i'r diben a'r darllenydd, yn cynnwys defnyddio geiriau sy'n gysylltiedig â phwnc. Rydym yn dechrau dilyn strwythur wrth ysgrifennu at ddibenion a chynulleidfa gwahanol. Caiff geiriau eu dewis er mwyn ychwanegu amrywiaeth a diddordeb wrth ddatblygu'r gallu i addasu arddull ysgrifennu i fod yn addas i'r darllenydd a'r diben, gyda nodweddion nodweddiadol amrywiaeth o destunau parhaus a rhai nad ydynt yn barhaus. Drwy efelychu lluniadau iaith, gallwn addasu iaith er mwyn ymateb yn bersonol ac yn gymdeithasol, yn ogystal ag yn y gymuned ac yn y gweithle. Rydym yn addasu iaith

ar gyfer sefyllfaoedd mwy cymhleth ac anghyfarwydd, gan ysgrifennu yn annibynnol a chydag eraill mewn amrediad o gyfryngau.

Mae awduron hyfedr yn dewis ac yn defnyddio strwythurau testun cyfan er mwyn cefnogi ystyr a chyfathrebu ar gyfer effaith. Rydym yn dewis strwythurau, geirfa a chywair wrth ysgrifennu ar gyfer cyd-destunau gwahanol gan ddatblygu rheolaeth o amrywiaeth o ffurfiau ac arddulliau sy'n briodol i'r dasg a'r diben mewn ffordd ddiddorol.